LLYGAD BARCUD

CYLCHLYTHYR

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

RHIF 26 – HAF 2012

John Parry yn ei hwyliau – dipyn o dderyn! (llun: Haf Meredydd)

HANES TAITH MAENTWROG

HEFYD YN Y RHIFYN HWN –

- YNYS SGOGWM
- Y DYCHWELEDIGION
- TAITH PORTIWGAL – RHAN 2

A LLAWER, LLAWER MWY!

ER BUDD ADAR A BYD NATUR

Golygyddol (gan Twm Elias)

Gweilch y Glaslyn – ta ta i'r RSPB

Tipyn o sioc a d'eud y lleia oedd clywed bod yr RSPB am dynnu allan o gynllun Gweilch y Glaslyn. Y fath dro pedol! Mi gofiwch y miri bedair mlynedd yn ôl pan wrthododd yr RSPB a throsglwyddo gofal o'r cynllun i fenter gymunedol – gan dorri'r addewid roddon nhw ar gychwyn y cynllun yn 2004, y bydda nhw'n gwneud hynny. Yna, yn 2008, â'r amser wedi dod i drosglwyddo i bardneriaeth gymunedol, mi wrthododd yr RSPB a chydnabod eu bod erioed wedi gwneud y fath addewid. Roeddent am gadw rheolaeth lwyr ar y fenter tra parai'r gweilch i nythu ar y morfa a'u bod ag 'ymrwymiad tymor hir' i gynllun Gweilch y Glaslyn. O ganlyniad chwalwyd y frawdoliaeth frwd oedd wedi cynnal y cynllun am y bedair mlynedd gynta ac, i lawer, mi chwalwyd enw da yr RSPB.

Yr esgus am y tro pedol presennol yw bod y gweilch erbyn hyn yn ei gwneud hi'n iawn yn Nghymru – maent wedi cynnyddu i o leia dri phâr sy' wedi llwyddo i nythu yma eleni a'r tebyg yw mai cynnyddu wna nhw a sefydlu o ddifri dros y blynyddoedd nesa. Dylsid felly, meddai'r RSPB, drosglwyddo'r sylw ac adnoddau prin at adar mwy haeddianol, e.e. adar y corsdiroedd – y gornchwiglen, gylfinir a'r gïach.

Gwir bod angen help ar yr adar sy'n prinhau. Ond mae i'r RSPB ollwng eu hymrwymiad i weilch y Glaslyn mor ddisymwth yn hollol warthus ac amhroffesiynnol. Chafodd Fforwm Gweilch y Glaslyn ddim gwybod tan Orffennaf 12^{fed} (er bod si ar led ers rhai wythnosau) fod yr RSPB yn ystyried rhoi'r gorau iddi ar ddiwedd y tymor hwn ac am drosglwyddo'r cyfrifoldeb i ryw 'fudiad yn seiliedig ar y gymuned'. Wel dyna beltan ar draws wynebau staff, gwirfoddolwyr a chefnogwyr y cynllun dros y blynyddoedd diwetha'!

Roedd troi cefn mor ddirybudd yn golygu na fyddai'n bosib i unrhyw grŵp cymunedol newydd baratoi y ceisiadau grant priodol mewn pryd i sicrhau arian i gario mlaen y flwyddyn nesa. Ac mae'n gwestiwn os oes y fath arian ar gael, yn'dydi? Er hynny llwyddwyd i gael rhyw fath o addewid y byddai'r RSPB yn barod i gefnogi'r cynllun am flwyddyn arall, ond ar raddfa lawer llai, tan ddiwedd tymor 2013. Ond, mewn cyfarfod arall gyda'r Fforwm yn Neuadd Prenteg ar Awst 14^{eg}, roedd yr RSPB yn anelwig iawn am natur unrhyw gefnogaeth ac os y byddai ar gael o gwbl at dymor 2013. Yn sicr, 'doedden nhw ddim yn barod i ddatgan dim byd ar bapur am unrhyw gefnogaeth. Sy'n atgoffa rhywun o ateb Tim Stowe (cyn Bennaeth RSPB Cymru) pan ofynwyd iddo yn 2008, eto mewn cyfarfod yn Neuadd Prenteg, am yr addewid wnaeth o yn 2004 y byddai'r RSPB yn trosglwyddo'r awenau i gynllun cymunedol: *"we haven't anything on paper concerning such a promise".*

Y gwir amdani ydi bod yr RSPB yn dda iawn fel arfer am warchod a monitro adar; rheoli cynefinoedd ar dirroedd eu hunain a chael y neges drosodd i'r cyhoedd a lluniwyr polisi am yr angen i weithredu dros adar. Ond 'does ganddyn nhw ddim syniad – dim blydi clem weithiau – am sut i drin pobl.

Costau uchel a diffyg incwm sy' y tu ôl i benderfyniad yr RSPB. Yn 2008 roedd gwylfan Pont Traeth yn llawer rhy werthfawr o ran recriwtio aelodau newydd iddynt feddwl am drosglwyddo i neb arall. Ers hynny prin fu'r buddsoddiad i ddatblygu'r safle sy' wedi golygu llithro i gyflwr o ddiffyg elw. Ond yn hytrach na jyst rhoi clec iddi pam na ellid cydnabod gwaith da y staff a'r gwirfoddolwyr presennol a rhoi'r rhyddid iddyn nhw i godi incwm a throsglwyddo'n raddol dros 2 – 3 mlynedd?

Mor wahanol yw sefyllfa Cynllun Gweilch y Ddyfi, sy'n cael cefnogaeth mor wych gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Maldwyn. Mae staff a gwirfoddolwyr y Glaslyn bellach yn cydnabod bod Emyr, arweiniodd y gwrthryfel yn erbyn yr RSPB yn 2008, yn iawn wedi'r cwbwl a bod y cyfan a ragwelodd o bryd hynny am ddyfodol (neu diffyg dyfodol) y safle dan yr RSPB wedi dwad yn wir.

Wedi tynnu sylw'r byd at safle nythu gweilch y Glaslyn onid yw'n ddyletswydd ar yr RSPB i gyfrannu at ddiogelwch y nyth? Oes, mae sawl cwestiwn yn codi. Hei lwc y gall corff newydd godi'r awennau a ollyngwyd. I lwyddo mi fydd angen gweledigaeth ac ymrwymiad, rhywbeth na chafwyd gan yr RSPB.

LLYGAD BARCUD - Cylchlythyr Cymdeithas Ted Breeze Jones

Rhif 26 – Haf 2012

Golygyddion –
Rhodri Dafydd (CCGC) a Twm Elias (PTyB)

Cyfranwyr –
Twm Elias, Ieuan Bryn, Rhys ap Rhisiart, Rhodri Dafydd

Pob llun – hawlfraint yr awdur oni nodir yn wahanol.

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES
Llywyddion Anrhydeddus –
Iolo Williams
Anwen Breeze Jones

Cadeirydd y Gymdeithas a Golygydd Ymgynghorol *Llygad Barcud*–
Twm Elias, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd LL41 3YU, (01766) 772 610

Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth –
Brian Paul, Ty Fry, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6RT, (01766) 770 500

Ysgrifennydd a Golygydd *Llygad Barcud*–
Rhodri Dafydd, 2 Maes Llydan, Capel Garmon, Llanrwst Conwy LL26 0RN, (01690) 710 312

Am fwy o wybodaeth a ffurflen ymaelodi â'r Gymdeithas cysylltwch â Brian Paul.

Croesawir llythyrau, cwestiynau, newyddion ac ati ar gyfer y rhifyn nesaf.
Anfoner unrhyw ddeunydd at yr Ysgrifennydd cyn diwedd Tachwedd os gwelwch yn dda

Manteision ymaelodi â Chymdeithas Ted Breeze Jones.

Bob blwyddyn bydd aelodau'r Gymdeithas yn derbyn tri rhifyn o'r cylchlythyr ***Llygad Barcud***. Cyn hir, byddwch fel aelodau yn derbyn cerdyn aelodaeth fydd yn eich galluogi i fynychu sgyrsiau a theithiau'r gymdeithas yn ddi-dâl. Ond un o fanteision mawr aelodaeth o'r Gymdeithas yw y bydd y cerdyn hwn yn caniatáu i chi gael gostyngiadau sylweddol o'r siopau isod –

- **Cotswold Outdoor**, Betws y Coed – 15%
- **Gelert**, Port – 15% ar nwyddau Gelert, 10% ar nwyddau eraill
- **Siop lyfrau Browsers**, Port – 10%
- **Fifth Element**, Port – 10%
- **Bear Print**, Port – 10%
- **Nigel Hughes**, Port – 10% (ar wahan i gamerau digidol – prisiau cystadleuol eisoes!)

Cyfranwch i'r wefan : ***www.cymdeithastedbreezejones.org.uk***

Yn sownd ar Ynys Sgogwm

Ieuan Bryn

I adarwyr sy'n sgut am adar prin, gall tywydd 'anffafriol' fod yn fanteisiol. Er enghraifft, os daw hi'n niwl trwchus pan fydd adar yn mudo atom dros y môr, byddant yn glanio ar y tir agosaf ac yn eu plith os byddwch yn lwcus ac yn y lle iawn, fe welwch yr aderyn prin hwnnw yr ydych wedi dyheu am ei weld ers oesoedd. Ar dywydd stormus iawn bydd adar anghyffredin, sydd fel rheol ymhell allan ar y môr, yn dod yn agos iawn at y glannau i hel eu tamaid. A phan fydd hi'n chwipio rhewi, bydd drudwy'n ymgasglu'n heidiau enfawr ac yn rhoi perfformiadau acrobatig, hynod o drawiadol i ni.

Cyfuniad o hindda a drycin gefais i ar Ynys Sgogwm ddiwedd Mehefin ond fe dalodd ar ei ganfed, oherwydd yn sgil y tywydd garw bu'n rhaid i mi aros ar yr ynys am dridiau ychwanegol ac wrth wneud hynny, cefais ambell brofiad go anghyffredin.

Llwybr Arfordir Penfro

Cyn croesi yno, arhosais am noson (yn ôl fy arfer bellach) yn hostel fechan Marloes a chael min nos hudolus yn cerdded mymryn bach o lwybr arfordir Penfro. Erwau o haidd cynnar yn tonni, ffermwyr yn codi eu tatws, yr haul yn machlud yn gain ryfeddol dros Ynysoedd Sgogwm a Sgomer a Gwales, a chrymanbig ddu'n hel llyngyrod ar ymyl Llyn Marloes.

Sgogwm

Milltir o hyd ar ei hwyaf, a hanner milltir o led ar ei lletaf, yw Ynys Sgogwm. Mae'n gorwedd i'r de o Ynys Sgomer, ddwy filltir a hanner oddi ar arfordir de-orllewinol Sir Benfro. Mae'r ynys gyfan yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, mae'n Warchodfa Natur Genedlaethol, mae'n rhan o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac mae'r dyfroedd o'i chwmpas yn

Warchodfa Forol.

Y Llychlynwyr a roddodd yr enw 'Skokholm' arni a'r ystyr yw 'ynys goediog'. (Nid yw'n ddisgrifiad cywir o gwbl o'r ynys erbyn heddiw!) Mae ei chreigiau tywodfaen yn 400 miliwn a rhagor o flynyddoedd oed a'i chlogwyni môr yn amrywio yn eu huchder o 70 troedfedd yn y gogledd-ddwyrain i 160 troedfedd yn y de-orllewin.

Ddiwedd y bymthegfed ganrif, roedd hi'n eiddo i un o feibion naturiol Harri'r Wythfed, Syr John Perrot. Prynwyd hi am £300 yn 1646 gan y bargyfreithiwr William Philips ac fe'i cadwyd yn y teulu am y 360 mlynedd nesaf.

Rhoddwyd hi ar werth yn 2005 ac ar ôl ymgyrch ddyfal i godi arian, prynodd Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru hi yn Ebrill 2006 am £650,000. Cafodd ei dynodi'n Warchodfa Natur Genedlaethol yn Rhagfyr 2008.

Ynys adar môr yw hi'n bennaf. Yma y ceir 15% o holl boblogaeth y byd o adar drycin Manaw; yma hefyd y ceir 20% o bedrynod drycin cyfandir Ewrop. Amcangyfrifir bod yma 4,500 o balod a thros 2,000 o wylogod a llursod. Yn nythu hefyd ar yr ynys, mae yna frain coesgoch – brain y Celtiaid!

Bwthyn

Yn y bwthyn a fu'n gartref i'r naturiaethwr Ronald Lockley yr oeddwn i'n lletya. Mae degau o wirfoddolwyr wedi bod wrthi'n ei atgyweirio'n ddiweddar – yn ei ail-doi, yn ei wifro a'i wyngalchu, ac yn creu llofft a swyddfa'n un i'r warden. Dim rhyfedd i'r gwirfoddolwyr ennill gwobr genedlaethol y llynedd; maent wedi gwneud gwaith ardderchog.

Llun: wwwt

Ond... rhaid mynd i'r ffynnon i gael dwr, a nwy potel a ddefnyddir i goginio. Mae trydan solar yn goleuo'r prif ystafelloedd, a lantarn yn rhoi goleuni cartrefol braf yn fy ystafell i. Trowyd hen ysgubor yn gegin ac yn lle i fwyta. Trowyd adeilad arall yn llyfrgell, a gwnaed rhan o un adeilad yn siop fwyd fechan.

Ronald Lockley

Yng Nghaerdydd yn 1903 y ganwyd Ronald Lockley ac yn yr Eglwys Newydd y magwyd ef. Yn fachgen ysgol, byddai'n treulio ei wyliau haf yn byw'n wyllt yng nghoedydd a gwlyptiroedd Morgannwg ac, yn 1927, aeth i fyw ac i ffermio ar Ynys Sgogwm – ynys heb neb yn byw arni, dim ond cwningod ac adar môr!

Dechreuodd astudio adar mudol yn 1928 a gwnaeth ymchwil arloesol ar adar drycin Manaw, palod a phedrynod drycin. Yn 1933, sefydlodd wylfa adar ar yr ynys - y gyntaf yng Ngwledydd Prydain, ac fe ysgogodd hynny eraill i fynd ati i agor gwylfeydd mewn sawl cwr o'r Deyrnas Gyfunol. Aeth Lockley ati hefyd i ffurfio Cymdeithas Gwarchod Adar Penfro, a daeth y Gymdeithas maes o law'n rhan o Ymddiriedolaeth Natur Gorllewin Cymru. Ysgrifennodd dros hanner cant o lyfrau ac, ar y cyd â Julian Huxley, cynhyrchodd un o'r ffilmiau natur proffesiynol cyntaf, sef *The Private Life of the Gannet* (1934). Enillodd hon wobr Oscar am fod y ffilm ddogfen orau.

Chwaraeodd y naturiaethwr enigmatig ran flaenllaw yn y gwaith o sefydlu Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Llwybr Arfordir Penfro, ac arweiniodd ymgyrch eofn yn erbyn adeiladu purfa olew yn Aberdaugleddau. Meddyliwch - petai'r ymgyrch honno wedi llwyddo, ni fyddai trychineb gwarthus tancer y *Sea Empress* wedi digwydd...

Yr *Alice Williams*

Ar 24 Chwefror 1928, digwyddodd trychineb gwahanol iawn ei natur: aeth y sgwner ddau-fast *Alice Williams* i drafferthion enbyd mewn storm. Llywiwyd hi'n ôl i borthladd Aberdaugleddau ond, yn ystod y nos, gyrrodd y gwynt hi allan i gyfeiriad Ynys Sgogwm ac fe suddodd yno ym Mae'r Llongddrylliadau. Roedd hi'n cludo 132 tunnell o lo.

Aeth Lockley ati i gael gafael ar gymaint o bethau ag y gallai. Defnyddiodd ei choed i drwsio ei ffermdy a chafodd fisoedd o wres o'i chargo! Mae'r trugareddau – ei llyw, ei chloch a'i lanterni – yn addurno'r gegin a'r llyfrgell o hyd ac mae ei thrawstiau wedi cynnal y toeau'n effeithiol ers blynyddoedd.

Y llyw oedd yn dwyn fy sylw i ac mae hwnnw'n cael lle canolog ar wal y simdde fawr yn y lle bwyta; byddai Lockley yn ei ddefnyddio'n rheolaidd i godi'r tegell oddi ar y tân!

Weithiau, byddwn yn gweld llong hwyliau hynafol yn siglo-mynd o gwmpas yr ynysoedd cyfagos, a byddai ei gweld yn gwneud i mi feddwl am yr hen sgwner.

Teg oedd yr awel a glas oedd y môr

A gwych oedd bod wrth y llyw...

Pedrynod drycin

Cael cip ar y pedrynod drycin sy'n nythu ar Sgogwm oedd fy mhrif amcan wrth fynd yno. Union wythnos ynghynt a thrwy gyd-ddigwyddiad llwyr, roeddwn i wedi bod yn gwylio ugeiniau ohonynt yn 'dawnsio' ar y tonnau'n eithriadol o agos at y lan ar draeth Cricieth.

Aderyn bychan y môr agored yw'r pedryn drycin a dim ond yn ystod y tymor nythu y daw hwn i'r tir, a hynny yn y nos er mwyn osgoi adar ysglyfaethus fel y gwylanod cefnddu mwyaf a'r sgiwennod. Ar ôl tywydd drycinog iawn, mae gennych siawns dda o'i weld wrth y glannau'n cyflawni'r gamp o hel plancton a physgod bychain drwy droedio'n ddeheuig ar wyneb y dwr. 'Troediwr y môr agored' yw ystyr yr enw gwyddonol arno, sef *hydrobates pelagicus.* (Mae'r enw'n tarddu o'r geiriau Groeg *hudro* am 'dwr', *baino* am 'troedio' a *pelagos* am 'y môr agored'.) Diddorol nodi hefyd bod y gair 'pedryn' yn deillio o'r enw priod 'Pedr', sef y disgybl a'r sant a gysylltir â cherdded ar y môr.

Llun: Scilly Pelagics

Tua'r un maint â gwennol y bondo ydyw, ac mae'r ddau aderyn yn debyg nid unig o ran maint ond hefyd o ran lliw a phatrwm y plu - y rhan fwyaf o'r corff yn ddu a'r crwmp yn wyn.

Yng ngorllewin Iwerddon, gogledd-orllewin yr Alban ac Ynysoedd Ffaröe y ceir y

niferoedd mwyaf o bedrynod drycin (hyd at 350,000 o barau!) ac ar ynys fechan Nolsoy (sy'n rhan o Ynysoedd Ffaröe) y mae 90% o holl bedrynnod y byd yn magu.

Oddeutu deugain niwrnod yw'r cyfnod deor a bydd y cywion yn gadael y nyth ymhen tua trigain niwrnod. Un mlynedd ar ddeg yw hyd oes yr adar, ar gyfartaledd, ond bu'r hynaf a gofnodwyd fyw am 31 mlynedd ac 11 mis!

Wrth fynd o gwmpas hen waliau Ynys Sgogwm yng ngolau dydd, clywsom un cyw'n ateb o'i nyth wrth i'r warden ddynwared galwad y rhiant. Byddem yn mynd allan wedi iddi nosi hefyd a thrwy graffu a chlustfeinio, yn gweld ambell bedryn yn gwibio fel ystlum i'w dwll, gan alw ar ei gyw wrth agosáu at y nyth.

Rhegen y dwr

Ond weithiau nid yr 'adar targed' fydd yn rhoi'r wefr fwyaf i chi ond y rhai sy'n dod i'r golwg yn annisgwyl ac yn dangos eu hunain i chi yn eu holl ysblander. Dyna beth ddigwyddodd un pnawn pan oeddwn i mewn cuddfan fechan wrth y ffynnon. Roeddwn i wedi bod yno am awr a mwy heb weld fawr ddim ond un telor yr hesg a siani lwyd ond, yna, dyma aderyn o faint iâr ddwr yn camu'n swil o'r hesg i ganol llecyn agored ac, ar ôl petruso tipyn, yn dechrau twtio'i blu yn yr haul o fewn tair llath ar y mwyaf i mi.

Llun: Stephen Burch

Roedd y patrymau'n syfrdanol – yn gymysgedd o frowniau golau a thywyll, llwyd, porffor, gwyn a du ac, ar wahân i'r pig coch hir, yn atgoffa rhywun o regen yr yd. Rhegen y dwr oedd hi, wrth gwrs, a bûm yn ei gwylio'n cymhennu ei phlu am bron hanner awr. Oeddwn, roeddwn i wedi gwirioni oherwydd mi glywais un yn sgrechian sawl tro ond methais weld yr un!

Ar ôl dod adref, dyma chwilio am ragor o wybodaeth am regennod y dwr a dod o hyd i ffeithiau digon diddorol. Mae yna bron 150 o rywogaethau'n perthyn i deulu'r rhegennod ac mae'r ffosil hynaf o regen y dwr yn 5.3 miliwn o flynyddoedd oed. Mae rhegennod y dwr yn magu ar hyd a lled Ewrop ac Asia – o Ynys yr Iâ a Gwledydd Prydain i Siberia, Corea, Tsieina a gogledd Siapan, yn ogystal ag mewn cynefinoedd addas yng Ngogledd Affrica, Sawdi Arabia a Thwrci. Er mai adar yr iseldir ydynt, maent yn nythu cyn uched â 4,000 o droedfeddi yn yr Alpau a chyn uched â 6,500 o droedfeddi yn Armenia.

Y ceiliog fydd yn dewis safle'r nyth ac wrth ei ddangos yn eiddgar i'r iâr, bydd yn codi plu ei gefn, yn lledu ei gynffon, yn pwyntio'i big i'r awyr ac yn galw nerth esgyrn ei ben. Ef fydd yn adeiladu'r rhan fwyaf o'r nyth, a hynny mewn un diwrnod gan amlaf. Yr iâr fydd yn gori ac os aflonyddir arni, bydd yn symud yr wyau i rywle arall. Gall y cywion ddod o hyd i fwyd ar eu liwt eu hunain o fewn diwrnod neu ddau ar ôl iddynt gael eu geni. Wedi'r cyfnod magu, bydd rhegennod yn colli llawer iawn o'u plu ac yn methu hedfan am tua tair wythnos, ond pan ddaw hi'n amser mudo, gallant hedfan dros bellteroedd maith. Daethpwyd o hyd i gyrff rhegennod a gafodd eu modrwyo ym Mhrydain mor bell â Gwlad Pwyl, Siecoslofacia a Sweden.

Llursod

Os pedryn drycin yw un o'r adar môr anwylaf, y llurs yw un o'r harddaf. Mae oddi tano'n glaer wyn a'r pen, y gwddf, y cefn a'r traed yn hollol ddu. Du yw ei big trwchus hefyd ac mae llinell fain, wen yn rhedeg o flaen y pig tua'r llygaid. Mae'r iâr a'r ceiliog yr un ffunud â'i gilydd ond bod adenydd 8-modfedd y ceiliog fymryn yn hwy nag adenydd yr iâr.

Llun: West Scotland Marine

Mae llursod yn hoff o gymdeithasu mewn niferoedd mawr ac mae ganddynt ddwy ddefod ddiddorol. Yn gyntaf, byddant yn nofio a phlymio gyda'i gilydd mewn cylch, gan ddod i'r wyneb a'u pigau i gyd ar agor. Byddant hefyd yn hoffi nofio'n rhes hir gan weu drwy'i gilydd i'r un cyfeiriad.

Maent yn ffynnu mewn dwr y mae tymheredd ei wyneb yn is na 15°C. Wrth chwilio am fwyd, byddant yn plymio'n ddwfn gan ddefnyddio'u hadenydd i'w gyrru ymlaen i ddyfnder o tua 25 metr, fel rheol. Yn ystod y cyfnod gori, nid yw'n anarferol iddynt hedfan 60 milltir a rhagor i gael bwyd ond pan enir y cywion, cadwant yn llawer nes at y lan.

Ar ôl annog amryw o geiliogod i gystadlu, yr iâr fydd yn dewis cymar yn y diwedd (fel ym myd pobl!) a bydd y pâr yn aros gyda'i gilydd drwy gydol eu hoes. Byddant yn cyplu hyd at 80 o weithiau dros gyfnod o 30 diwrnod er mwyn sicrhau ffrwythloniad ac, fel y pedrynod ac adar drycin Manaw, dim ond un wy a ddodwyant. Ar Ynys yr Iâ y mae 60-70% o holl lursod y byd yn nythu.

Dim ond am dair wythnos y bydd y cywion yn aros yn eu nythod. Ymhell cyn iddynt allu hedfan, byddant yn mentro i'r môr am y tro cyntaf yn eu bywyd, drwy bowlio'n bendramwnwgl oddi ar y clogwyni uchel at eu tadau sy'n galw arnynt yn y dwr.

Roedd y profiad o'u gwylio'n gwneud hyn yn gyfuniad o bryder a hen, hen hwyl! Y gorchwyl cyntaf i ni oedd chwilio'r clogwyni am gywion aeddfed a hoelio sylw wedyn ar un neu ddau ohonynt, yn y gobaith o'u gweld yn stryffaglian ar ddechrau'r cwymp ac yna'n rhoi naid anferthol i'r dyfroedd islaw. Weithiau, clywed swn y cyw'n taro'r dwr y byddem, neu weld y tad a'r bychan yn nofio am eu hoedl i ddiogelwch y môr agored. Ceid cymeradwyaeth frwd bob tro y byddai hynny'n digwydd, ond och a gwae petai'r cyw yr oeddech i fod i'w wylio wedi neidio heb i chi ei weld!

Pa un fyddai'n llamu nesaf? Roedd y tyndra ymysg y gwylwyr yn drydanol... Pawb wedi ymgolli, neb yn malio bellach am y glaw, a llygaid pawb yn llosgi ar ôl craffu yn y lled-olau. Hwyl a miri'n sicr ond

teimlo'n freintiedig hefyd o weld un arall o ryfeddodau byd natur.

Hebogiaid tramor

Adar eraill a enynnodd fy niddordeb yn ystod yr wythnos oedd yr hebogiaid tramor sy'n nythu ar yr ynys. Roedd yna deulu o bedwar ohonynt ac roeddwn i'n ddigon ffodus un diwrnod i weld y ceiliog yn dod â gwylan yn ei grafangau i'r ddau ifanc ac yn dangos iddynt sut i fynd i'r afael â hi. Gwyliais y ddau gyw wedyn yn darnio'r wylan orau a fedrent ac yn cysgu'n drwm ar ôl yr ymdrech, ar wely o blu wedi'u gwasgaru i bobman.

Llun: animalnewsoftheworld

Rhyfeddais pa mor chwim y gallai'r ddau hedfan a hwythau ond newydd adael y nyth. Treuliais fwy nag un pnawn yn eu gwylio'n smalio cwffio yn yr awyr gan sgrechian, rholio, cyffwrdd crafangau ei gilydd, plymio i lawr a rocedu i fyny. Ar un adeg wrth chwarae fel hyn, ysgubodd un o'r cywion o fewn hyd braich yn llythrennol i mi!

* * * * * * *

Does dim gofod i sôn am y 60,000 o adar drycin Manaw fyddai'n ymgynnull bob diwedd pnawn ar y tonnau rhyngom ac Ynys Sgomer gan greu patrymau trawiadol wrth iddynt godi i'r awyr, nac am y palod yn mynd rownd a rownd â llond eu pig o lymrïaid, nac am y rhostogion cynffon-ddu yng nghochni anhygoel eu plu haf, na'r hedyddion yn llenwi'r awyr â'u cân pan ddeuai'r haul i'r golwg, na'r llamhidydd a frigodd i'r wyneb ddwywaith wrth i ni groesi'n ôl i'r tir mawr.

Gwynt a glaw a niwl, ochr yn ochr â chyfnodau o haul godidog, a gefais i. Bu'r amrywiaeth hon yn gyfle i weld llawer ongl ar gymeriad yr ynys ac i gael golygfeydd ysgytwol pan fyddai'r môr yn corddi a'r tonnau'n chwalu'n chwilfriw ar y clogwyni.

Byddai'n amhosibl gadael Ynys Sgogwm a gadael Sir Benfro heb i ryw linell gan Waldo Williams ddod i'r cof. Wrth ymadael â'r bwthyn, edrychais drwy ffenestr f'ystafell ar y danadl poethion a'r gelaetsh, a dyma'r llinellau a fynnodd ddod:

Hil y gwynt a'r glaw a'r gelaetsh a'r grug...

Wrth fy nghefn ym mhob annibyniaeth barn.

Symlrwydd pethau sylfaenol felly a drodd fy ngwyliau i ar Sgogwm yn brofiadau a gofiaf am gryn amser.

Os am fwy o wybodaeth am Ynys Sgogwm, neu yn meddwl am ailgreu rhai o brofiadau leuan Bryn ewch draw i wefan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gorllewin Cymru:

http://www.welshwildlife.org/skomer-skokholm/skokholm/

YMDDIRIEDOLAETHAU natur CYMRU WILDLIFE TRUSTS WALES

Dychweledigion - am ba hyd tybed?

Rhys ap Rhisiart, Derwin Bach, Bryncir

Yma ym mlaenau diroedd Eifionydd ar derfynau deheuol Arfon, pan ymestyno'r dydd ganol Mawrth, rhywfaint yn gynt na'r cam-ceiliog calanaidd, gwrendy'r trigolion am ddychweliad y drindod honno a'u haddewid o wledd wanwynnol wedi cythlwng gaeaf.

Llun: raywilsonbirdphotography.co.uk

Na, nid ednod cartrefol Morgan Llwyd mohonynt, eithr yn nhrefn arferol eu dyfodiad, y gylfinhir, y gwenoliaid a'r gog-lwydlas. Hyd yma, yn groes i'r duedd mewn llawer man, deil y gylfinhir a'r gog eu tir yn hedd gweir gloddiau, rhosydd a chorsydd y gwlypdiroedd sy'n ymestyn o Roslan yn y de drwy'r Bwlch Mawr i gyffiniau Cors y Wlad i'r gogledd, gan ddilyn llif Afon Dwyfach a'i is nentydd uwch ben Hengwm i'w tharddle yn y ddofn Seler Ddu.

Yn ddiweddar derbyniodd Cyngor Gwynedd gais cynllunio i gloddio, dros gyfnod o 12 mlynedd, am raean a thywod ar esgair a drumlin cyffiniol i ran or gwlypdir hwn. Mae ein pryder yn ddeublyg, o ystyried effeithiau caniatau y datblygiad arfaethedig hwn fynd rhagddo.

Wedi'r cloddio di-dor a fu yn ardal Bryncir am gyfnod o drigian mlynedd erys yr esgair / drymlin crybwylledig yn dyst unig o'r tirlun hanesyddol adawyd wedi enciliad terfynnol y rhew lifau o ddeutu pymtheg mil blynedd yn ôl.

"Fy hen serchog frynniog fro, ni chaf ond prin ei chofio."

Dylid gwarchod yr esgair rhag di-fodiant, bu yn grud i wareiddiad yn Eifionnydd o'r cyfnodau cynharaf hyd ein dyddiau ni yn rhinwedd ei ffrwythlondeb. Wedi concwest

1283, ni fu brenin Lloegr, Edward 1, fawr o dro cyn sefydlu melin yn Llecheiddior, yn gyfrwng i drethu cynyrch cnydau yd tor-eithiog ein cyn-dadau, yntau wedi syrthio i bydew di-waelod o ddyled yn dilyn gorchest codi ei gestyll a'i drefi saesnig yng Ngwynedd.

Daeth cysur o ddeall, â'r bygythiad diweddaraf i dirlun a chynefin yma yn cryfhau, bod RSPB Cymru yn llacio eu gafael ar weilch pysgod Glaslyn, gyda'r gobaith o gyfeirio adnodddau prin i ardaloedd o bryder cadwreithiol megis adar ffermydd yr ucheldir. "*Daily Post*, Gorffenaf 19, 2012"

Eleni clywais mewn "Fliwt hyfrydlais" y gylfin hir am y tro cyntaf ar y deuddegfed dydd o Fawrth, o ddeutu deng niwrnod yn gynharach nag arfer yn y werglodd uchaf. Ein dymuniad a'n gobaith, bobol fach y wlad, ydyw i'n plant a phlant ein plant brofi'r wefr a deimlir o glywed cri'r gylfinir – gwir genad y gwanwyn.

Cyfrannodd y rhan hwn o Eifionnydd i economi Gwynedd a thu-hwnt er yr ail rhyfel byd gyda ymatel a hir-ymaros goeddgar i'r canlyniadau negyddol a ddilynau brosesau diwidiannol. Dywedwn yn groew mae digon yw digon, a dymuno rhwydd-hunt i'r hen bwll gro ym Mryncir barhau a datblugu fel canolfan ail-gylchu ddynodedig. Ni all cydnawsedd fodoli rhwng cloddio a thrin deunydd gwyryddol yng hyd-destyn ail-gylchu.

Yn y pen draw o'm egnio i ddatblygu amaethyddiaeth gynnaladwy law y llaw a thwristiaeth gwledig gyda'i bwyslais ar warchod tirlun a chynefin y gosodir y sylfaeni cedyrn i gynnal yr hun a erys o'n cefn gwlad.

Gwahoddir chwi i gofrestru eich pryderon ynglyn ar cais cynllunio hwn ar lein:
www.gwynedd.gov.uk
Rhif y cais:
C/12/0495/36/MW

neu ysgrifennu at:
Swyddog Cynllunio Mwynau,
Cyngor Gwynedd,
Caernarfon,
Gwynedd
LL55 1SH

Adar y maes golff

Ydach chi wedi meddwl o le daeth y term *'birdie'* a ddefnyddir gan y rhai sy'n chwarae golff?

Defnyddir y gair hwn i ddisgrifio pryd mae golffiwr wedi llwyddo i gael ei bel i'r twll mewn un trawiad yn llai na'r par, sef y nifer safonol neu ddisgwyliedig o drawiadau i gael y bel i'r twll hwnnw. Mae'n tarddu o ddywediad gan ryw AB Smith mewn gêm yn Atlantic City yn yr Unol Daleithiau yn 1903, pan gafodd o un trawiad dan y par:

'That's a bird of a shot' medda fo.

Byth ers hynny ***'birdie'*** fuo'r enw!

Shot brinach yw llwyddo i gael dau drawiad dan y par – ***'eagle'*** ydi hynny ac os ceir tri thrawiad dan y par caiff ei alw ar ôl deryn prinach fyth (prin iawn iawn dros y tir yng ngogledd America!) = ***'albatros'***.

Twm Elias

Rhwydwaith Llwybrau Maentwrog

Mai 5ed, 2012

Twm Elias

Criw detholus o naw ddaeth ar y daith – Dewi, John Parry (efo'i straeon difyr am aros ar Enlli yn ddiweddar), Huw Dafydd, Haf, Gareth a Gwennan, Jonesiaid Llangristiolus (ond heb Tomos) a'r arweinydd. Doedd Ieuan Bryn ddim hefo ni – roedd yn ddiwrnod 'mudo arno fo: yn symud ei dryceidiau o drugareddau o Rydymain i 'Pendryn'. Croeso Ieu.

Ar fin cychwyn, pawb â'i fap (llun: Huw Dafydd)

Rhwydwaith Lwybrau

Cyfarfod ym maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'ddim y bell o Cae Fali (yr enw yn tarddu o: Cae *yn perthyn i wraig o'r enw* Mali). Rhaid cyfadda' bod rhyw elfen o 'esgus ' ar ran yr arweinydd yn y dewis o lwybr heddiw – roedd yn gyfle da, am na chafodd gyfle cyn hyn, i droedio'r ychwanegiadau wnaethpwyd yn ddiweddar i Rwydwaith Lwybrau Dyffryn Maentwrog / Llyn Mair.

Sefydlwyd y rwydwaith hon yn 1989 drwy gytundeb hanner dwsin o wahanol gyrff (y Parc Cenedlaethol – Plas Tan y Bwlch; Lein Bach Stiniog; Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y Cyngor Cefn Gwlad; cwmni coedwigaeth UPM Tilhill a Coed Cadw) a dau dirfeddianwr preifat. Mae'r tir yn ymestyn ar ffurf ryw driongl go fler rhwng Cae Fali, Rhyd a Than y Bwlch ac yn cynnwys dros 30 cilomedr o lwybrau, drwy dir coediog yn bennaf, efo ambell i olygfan fendigedig yma ag acw. Dyma roi copi o fap y rhwydwaith i bawb cyn cychwyn – rhag i neb fynd ar goll, ynde? Mae copïau ar gael yng ngorsafoedd y Lein Bach, Plas Tan y Bwlch, tafarn yr Ocli Arms a nifer o lefydd eraill.

Cytiau crynion

Wrth ddringo o'r maes parcio mi gawsom gwmni amryw o adar y coed: titw penddu, ji-binc, tresglen (neu bronfraith fawr) ac, ar gwr llecyn agored oedd â'i lawr yn llawn mieri, mi oedd 'na tshiff-tshaff 'yn tshiff-tshaffio'. Ein cyrchfan gynta oedd y cytiau crynion sydd jyst uwchben Cae Fali. Dyma enghraifft dda iawn o fferm gynnar – nifer o gytiau crynion ac un ohonyn nhw efo'i furiau yn dal i sefyll yn hynod o gyflawn, cwt neu stordy hirsgwar â'r cyfan wedi ei amgylchynnu â wal allanol hirgron amddiffynnol. Roedd yn ddifyr meddwl sut oedd ein cyndeidiau'n byw bryd hynny a pha fathau o gynefinoedd, bywyd gwyllt ac adar oedd yma mor agos i'r hen forfa.

Troi'n ein holau a dringo ryw chydig (pwynt 40 ar y map) i olygfan ryfeddol lle'r oedd y tro yng nghwrs yr Afon Dwyryd heibio Cei Newydd wedi ei fframio'r daclus gan ganghennau'r coed.

Y tro yn yr afon. Neis 'de?

Be dd'wedodd Darwin am ein tarddiad ni, d'wch?

Ymlaen ac yn ein holau i'r prif lwybr a chael y wefr o wylio telor y coed yn canu nerth esgyrn ei ben. Mae ei gân o yn union fel darn arian yn troelli ar wydr, yn cychwyn yn ara ac yna'n cyflymu i greshendo: 'dy – dy – dy – dy –dy-dy-d-d-drrrrrrr.' Â'r peth bach, sy'n eitha melynaidd ei liw, yn rhoi ei holl enaid i'w gân ac yn crynu drwyddo wrth gyrraedd ei greshendo.

Telor y coed (Llun: Huw Dafydd)

Y Cei Mawr

Wrth inni groesi'r Lein Bach a gadael tir yr Ymddiriedolaeth roedd gwybedog brith yn tiwnio'i hawliau tiriogaethol, tshiff-tshaff, bronfraith fawr ac amryw o fân adar cyffredin. Troi i'r gorllewin (pwynt 22) a dilyn y ffordd goedwig ac yna'r llwybr newydd y tu ucha i'r Lein Bach hyd at pwynt 39. Fe ddaethom ar draws olion hen chwarel ym mherfeddion y coed a deall yn fuan wedyn mai oddiyma y daeth llawer o'r cerrig i adeiladu'r Cei Mawr.

Ystyrid y Cei Mawr yn un o saith rhyfeddod Cymru ar un adeg o ran ei adeiladwaith – am ei fod y gwaith walio sych mwya yn y wlad pan y'i codwyd yn llwyfan i'r dramffordd gariai lechi o'r Blaenau i'r harbwr newydd yn Port yn yr 1830au. Fe'i hadeiladwyd yn gadarn iawn, heb owns o sment na chincrit ar ei gyful, ac mae wedi dygymod yn iawn o'r cychwyn efo cryndod tryciau ar y cledrau, bron yn ddi-dor.

Bron yn ddi-dor, oherwydd bu'r Lein Bach yn segur am gyfnod yn y 1940^{au} – dechrau'r 50^{au} rhwng y ddau gyfnod o brydurdeb pan fu'n cario llechi ac yna'n cario twristiaid. Roedd hynny'n atgoffa John Parry am hanes cymeriad o Penrhyn: Dodo, oedd yn byw yn Rhes Gwilym ym mhen ucha'r pentra. Wedi i'r lein gau a'r rheiliau haearn gael eu codi mi fydda Dodo'n arfer mynd a chodi'r coed 'slipars' oedd ar ôl a mynd a nhw'n goed tân. Roedd hynny'n gyfleus iawn iddo fo ar y cychwyn, â'r Lein Bach yn mynd heibio'i ardd gefn o. Ond, yn ôl disgrifiad John Parry, fel yr oedd o'n codi mwy a mwy o'r slipars, mi oedd rhaid iddo fo gerdded yn bellach ac yn bellach i'w nol nhw, er mawr boendod iddo fo a mawr ddifyrwch i'w gymdogion.

Hafod y mynydd

Ym mhen draw'r Cei Mawr y cawson ni ginio, efo'r gôg yn canu yn y pellter ac amryw o adar bach y coed yn gefndir cerddorol i'r sglaffio.

Yna, dilyn y llwybr cyhoeddus drwy'r goedwig i gyfeiriad Rhyd heibio olion rhai o'r hen weithfeydd plwm sy'n britho'r ardal a throi ym mhwynt 35 ar y map am Hafod y Mynydd a'r topiau. Murddun ydi Hafod y mynydd bellach a, gwaeth fyth, efo ffordd goedwig yn mynd reit drwy ganol y tŷ erbyn hyn. Yma yr oedd Ioan Brothen (1868 - 1940) yn byw; un o englynwyr gorau'r Gymraeg. Roeddwn yn cofio be dd'eudodd o am chwain Barics y Rhosydd:

Hunwn (a blin oedd hynny) – yn fy oer
Annifyrraf lety,
A theimlo brath amal bry, –
Ar waelod y budr wely.

Mi oedd o'n fardd natur da iawn – fel y gwelwn o'r canlynol yn y gyfrol deyrnged iddo: *Llinell neu Ddwy* (1942):

Y Fwyalchen

Naturiol fwyn gantores, – a beunydd
Dderbyniol gymdoges:
Yn bêr, heb bryder am bres,
Rhaeadra'i chân heb rodres.

Y Fronfraith

Dy lais mwyn sy'n dlws i mi: – ar adar
Hudol yn rhagori:
Medal aur am delori
Yn lled hawdd enillit ti.

Doswch i *Llinell neu Ddwy* am fwy o englynion natur.

Y Gysgfa a Chlogwyn y Geifr

Ymlaen wedyn i fyny'r allt ac ar ôl dringo clip go serth at y diwedd dyma gyrraedd pen Y Gysgfa. Mi oedd golygfa wych oddiyma i bob cyfeiriad ar un adeg ond bellach mae'r coed duon ddiawl wedi tyfu'n llen i guddio popeth. Ond, mi fydd y rheiny yn cael eu torri cyn bo hir – mae'r peiriannau medi coed wedi cyrraedd hyd at ryw 2 – 300 llath oddiyma yn barod.

I lawr â ni a thrwy faes y gâd – sef y llanast adawyd wrth glirio'r coed ac at ymyl Clogwyn y Geifr. Wel dyma olygfa anhygoel dros rannau isa Dyffryn Maentwrog a thros aber yr Afon Dwyryd efo Llŷn ac Eifionydd yn y pellter a'r Moelwynion y tu cefn inni. Mae hwn yn glamp o glogwyn efo coedwig dderw yn tyfu o gwmpas ei draed ac yn safle nythu i gigfrain ers cyn cof. Ac i ddangos eu bod nhw'n dal yma dyma *'gronc'* ddofn â'r hen frân greigiau (ei henw yn ardal Nefyn) yn anelu'n fygythiol at fwncath oedd wedi bod yn ddigon haerllyg i ddwad i'r golwg ryw ½ milltir i ffwrdd. Mi fu tipyn o herio awyrol cyn i'r bwncath ei heglu hi o diriogaeth ei erlidiwr mawr du.

Mae enw'r clogwyn yn awgrymu y bu geifr yma ar un adeg – o bosib yn rheolaidd.

'Dwinna'n cofio geifr Dyffryn Maentwrog yn campio yma ar ben y clogwyn dros sawl haf ryw 15 – 20 mlynedd yn ôl. E'lla y don't yn eu hola', rwan bod y coed duon felltith wedi dechrau ymadael.

Gylfin groes

Dyma feddwl am ei throi hi am adra, felly dilyn y llwybr i gyfeiriad pwynt 18 gan wthio heibio, dros, drwy ac o dan frigau a boncyffion coed oedd wedi'u dadwreiddio gan y gwynt yn ddiweddar. Jyst cyn cyrraedd pwynt 18 dyma glywed galwad a phwt o gân wahanol. Be oedd yno ar gangen llarwydden ond dau ylfin croes – un yn felyn-frown a'r llall yn felyn. Mae 'na dipyn ohonyn nhw o gwmpas eleni ac roedd yn dda iawn eu gweld. Iâr (y felen) a chyw oedd y rhain – biti nad oedd y ceiliog o gwmpas, sy'n goch llachar drosto.

Troi i'r dde ac at droed Clogwyn y geifr ac i'r dde eto (pwynt 19) heibio Llyn Trefor, sy'n gronfa ddŵr i rai o'r tai ar waelod yr allt odditanon ni. Roedd llwybr arall newydd sbon yn mynd yr ochr isa i'r llyn (rhwng pwyntiau 19a a 20a) a dyma'i ddilyn a thros yr argae i ail-ymuno â'r llwybr fyddai'n mynd â ni at groesfan y Lein Bach lle buon ni gynnau. Welson ni ddim byd newydd wrth fynd ar ein pennau yn ôl am y maes parcio ond mi gawson ni olwg dda ar ditw penddu a chlywed telor penddu a thelor helyg yn telori inni.

Diwrnod da a hydnoed y rhai oedd yn gyfarwydd iawn â'r ardal wedi dysgu ambell beth newydd.

Gareth wrth ei waith: "Gwena rwan" (llun: Haf Meredydd)

Os tisho mynd i...Albufeira?! (Rhan 2)

Rhodri Dafydd

Wedi bore bendigedig ym mewndir Portiwgal (gweler *Llygad Barcud 25*) roeddem erbyn hyn ar y draffordd yn ôl tua Vilamoura a'r arfordir. Ar y ffordd, dyma drafod rhywfaint o hanes cythrublus Portiwgal, sydd bellach wedi tawelu ond fod y wlad yn parhau mewn sefyllfa ariannol ddybryd... oes 'na unrhyw wlad yn y byd sydd ddim dywedwch?!

Corsiar yn troedio'n ofalus (llun: Birdwatchers Digest)

Ymhen hir a hwyr, dyma droi oddi ar y ffyrdd tarmac llydan a dilyn ffyrdd llai drwy ardaloedd preswyl, cyn troi i lawr rhyw drac pridd cul oedd heb ei wynebu o gwbl, a rhyw ymlwybro'n araf drwy goedydd agored, hyd nes cyrraedd gwlyptir mawr yn agor o'n blaenau. Ond nid gwlyptir naturiol oedd hwn, ddim bellach beth bynnag. Ers canrifoedd bu pobl yn manteisio ar wres yr haul i 'greu' halen o ddŵr y môr. Yma roedd degau o welyau sychu, rhai ohonynt newydd eu llenwi â dŵr y môr ac yn lagwnau deniadol i bob math o rydwyr tra roedd eraill wedi eu cau ers amser a'r dŵr bellach yn rhy hallt i ddim byd fyw yno. Ymhen ychydig byddai'r rhain yn sych grimp a byddai modd crafu'r halen o'r wyneb a dechrau'r broses unwaith eto.

Lagŵn sych

Dal i fynd ar hyd y trac nes dyna cyrraedd gwlyptir oedd yn fwy naturiol, cwrs afon oedd

wedi agor allan i fod yn aber weddol gul cyn cyrraedd y morfa heli. Ar bob ochr roedd gwelyau cyrs tal, ac yma, tra'n edrych ar yr holl hwyaid a creyrod daeth aderyn go arbennig i'r golwg – eryr bacsiog, yn hedfan yn araf gyda churiad adennydd hamddenol dros ben, dros y gwelyau cyrs gan fynd yn ôl ac ymlaen dros ambell i barth, cyn hwylio yn ei f
laen ar y gwynt. Wedi dod i lawr o'r bryniau oedd hwn mae'n debyg, ac yn hawdd i'w adnabod oherwydd dau farc golau ar bob ysgwydd 'landing lights' i'w gweld o bell!

Eryr bacsiog (llun: Wikipedia)

Fu gen i erioed fawr ddim i'w ddweud wrth chwarae golff. Ffordd dda i ddifetha mynd am dro, ys dywedodd Mark Twain unwaith – ag allwn i ddim cytuno mwy ag o! Er i mi gael tro arni unwiath (wel, os ydy hitio peli ar gwrs naw twll yn Ninbych ar ben-blwydd un o fy ffrindiau coleg yn cyfri!), dydy'r gêm erioed wedi apelio ryw lawer i mi. Ond pawb at y peth y bo wrth gwrs ac, os anwybyddwch y prif lawntiau chwarae gall ambell i gwrs golff fod yn lle gweddol dda i fyd natur - rwy'n meddwl am y tegeiriannau bendigedig a geir yn y 'garw' ar rai o'n cyrsiau golff arfordirol megis Aberdyfi a Harlech. (Yn Harlech gwelais garlwm yn cario cwningen ar draws y cwrs unwaith, â'r wningen druan yn sgrechian nerth esgyrn ei phen – am sŵn annaearol oedd hwnnw!) Ond yma ym Mhortiwgal gwyr nifer o adarwyr fod cynefinoedd gwych ar gyfer adar hwnt ac yma o gwmpas y lleiniau gwyrdd llachar. Mae pyllau a llynnoeddi wneud y gêm yn fwy o sialens yn dda i adar, ac yma yn Vilamoura roedd natur wyllt y llynnoedd bach yn fendigedig. Dyma, felly oedd y llecyn nesaf i ni ymweld ag o.

I wneud y cyfan yn well roedd cuddfanau mewn ambell le wedi eu codi ar stilts fel y gellid treulio oriau yn edrych allan drostynt yn y gobaith o weld adar llechwraidd megis gwahanol greyrod yn stelcian rhwng y brwyn a'r hesg ar hyd y glannau.

Dyna wnaethon ni, ac ymysg yr holl hwyaid (gan gynnwys llydanbig, hwyaid llwyd, hwyaid copog a hwyaid gwyllt), glas y dorlan a gylanod amrywiol (dewn yn ôl at y rheiny yn y munud!) bum yn ddigon ffodus i weld aderyn sydd fel arfer bron yn amhosib ei weld oherwydd ei natur, sef aderyn y bwn lleiaf.

Aderyn y bwn lleiaf (llun: Bill Baston)

Yn wir, rhaid fod lwc gyda mi heddiw oherwydd cefais fwy na chip ohono ond golygfeydd ardderchog o'r aderyn yn hedfan o un ynys i'r llall a glanio ynghanol y brwyn nepell o'r guddfan.

Ond os cofiwch, mae un seren arbennig yn trigo ar feysydd golff de Portiwgal – ac fe fydd y rhai craff yn eich mysg wedi sylwi yr aderyn yn y llun ar ddechrau'r erthygl. Dyma adar y mae Twm wedi son amdanynt yn flaenorol yn *Llygad Barcud* (rhif 12, 2007) wrth gwrs. Ie, y gorsiar borffor, yr aderyn hynod hwnw sy'n adnabyddus am ddwyn peli golff – os credwch Mr Elias! Ta waeth am hynny, dyma adar lliwgar a bendigedig ac anodd credu pa mor fawr ydyn nhw nes ichi eu gweld yn sefyll drws nesa i iâr ddŵr gyffredin!

Corsair a iâr ddŵr gyda'i gilydd

Er eu bod braidd yn nerfus os âi rhywun yn rhy agos, roeddynt yn ddigon eofn i droedio'r lawntydd gwyrdd rhwng pob gêm.

Yma ac acw gwelid copogiaid yn cerdded rhwng cysgodion y coed ar gyrion y cwrs, y borfa fer yn ddelfrydol iddynt allu tyrchu am bryfetach – er roeddwn yn dychmygu mai digon gwael fyddai'r boblogaeth o drychfilod di-asgwrn cefn o weld lliw'r cwrs golf a'r holl gemegion y tybiwn oedd yn cael eu pwmpio i'r ddaear i'w gynnal mewn gwlad sy'n enwog am fod yn sych am gyfnodau hirfaith...

Y copog (llun: Kitdayuk.com)

Dyma un o fy hoff adar, mor unigryw a charismatig ydynt.

Ond gadewch i ni fynd yn ôl at y gwylanod am ennyd. Er 'mod i wedi bod yn ddigon ffodus i ddysgu ychydig am wylanod dros y blynyddoedd diwethaf drwy wybodaeth a phrofiad rhai o arweinwyr teithiau'r Gymdeithas (heb enwi neb - Rhys, Elfyn, Dewi a Kelvin!), rhaid i mi ddweud fy mod wedi eu cael yn adar anodd i danio'r dychymyg – ac mi wn nad wyf yn unig yn hyn o beth. Ond oherwydd y gwendid hwn, hawdd iawn fyddai i mi fod wedi methu a gweld un aderyn oedd yn dipyn o 'dic' iar fy rhestr – gwylan brinnaf y byd ar un adeg (roedd llai na mil o barau ddiwedd y 1960au), sef Gwylan Audoin. Hyd yn oed heddiw, does dim ond rhyw 10,000 o barau o'r wylan fawr hon yn trigo yn ardal Môr y Canoldir a gogledd Affrica.

Gwylan Audoin (llun: Costa Blanca Bird Club)

Roedd hon ymysg nifer o wylanod eraill yn eistedd ar un o'r llynnoedd ar y cwrs golf, yn codi ambell waith fel bod modd ei hastudio'n fanylach cyn iddi ddisgyn yn ôl i'r dŵr fel y bydd gwylanod yn ei wneud. Aderyn hardd dros ben gyda' pig goch. Wedi gweld cymaint o wylanod prin amrywiol adre yng Nghymru yn ddiweddar rwy'n dechrau magu mwy o ddiddordeb ynddyn nhw fy hun erbyn hyn! Mi fyddaf yn talu mwy o sylw y gaeaf hwn...

Ymlaen o'r maes golff a chyrraedd morfa heli eang â llwybr llydan braf yn arwain drwy ei ganol. Dyma ni, o'r diwedd, wedi cyrraedd gwlyptiroedd arforfirol Parc Cenedlaethol Rio Formosa.

Yn syth, dyma weld aderyn arall yr oeddwn yn awchu am ei weld, sef boda'r gwerni – benyw oedd hon, gyda'i phen lliw hufen bendigedig, a'i hedfaniad mor ysgafn a gosgeiddig.

Boda'r gwerni (llun: Pewit.blogspot.com)

Yr oedd digon i'w hela yma, oherwydd o boptu i'r llwybr gellid gweld pob math o rydwyr, o rai bychain fel cwtiad y traeth, pibydd y mawn a'r cwtiad torchog i rai mwy fel yr hirgoes (*black winged stilt*).

Roeddwn wedi gweld y rhan fwyaf ohonynt o'r blaen wrth gwrs, ond roedd un bach go anghyffredin i mi sef cwtiad Caint. Gellid gwahaniaethu hwn oddi wrth y cwtiad torchog gan nad yw ei dorch yn 'uno' o dan ei wddf.

Cwtiad Caint (llun: digdeep)

Ond roedd adar eraill hefyd oedd yn gwneud i mi sylweddoli nad yng Nghymru yr oeddwn – llwybigau a fflamingos!

Llwybig a fflamingo

Un arall o'm hoff adar a welais yma oedd y cwtiad llwyd. Yr oedd y rhain ar fin gadael deheubarth Ewrop, a dychmygais y daith oedd gan y rhain o'u blaenau cyn cyrraedd eu tiroedd magu yn yr Arctig wedi eu gwyliau blynyddol yn haul bendigedig y rhan hon o'r byd. Yr oeddynt yn dal yn eu lliwiau gaeaf ar hyn o bryd, ond cyn bo hi'r byddai'r ceiliogod yn datblygu eu boliau a wynebau duon trawiadol – am olygfa fyddai honno yng ngolau canol nos y gogledd pell...

Cwtiad llwyd (llun: Andrew Carey)

Ond yn anffodus, doedd dim golau pedair awr ar hugain yn y rhan hon o'r byd – erbyn hyn roedd y golau'n dechrau pylu a'r awyr yn troi'n lliwiau rhyfeddol o ganlyniad. Rhaid oedd troi'n ôl felly, y diwrnod hir o adarydda yn tynnu i'w derfyn.

Wrth gyrraedd y car, rwy'n meddwl i Georg deimlo piti drostaf – roedd ef yn byw yn Vilamoura a'r hyn yr oeddem wedi ei drefnu oedd fy mod i am ddal bws yn ôl i Albufeira ar derfyn dydd. Ond, a phob chwarae teg iddo, fe ddywedodd y byddai'n fy ngyrru yn ôl i'r gwesty (er, a dweud y gwir rwy'n meddwl fod ganddo ofn y byddwn yn mynd ar y bws anghywir ac yn deffro yn rhywle yn Sbaen!)

Ar y daith adre, yn hanner dywyllwch y gwyll, yr oedd hanner gobaith ynom ein dau i goroni'r dydd gyda golygfa o dylluan yn croesi'r ffordd o'n blaenau yng ngolau'r car, neu yn eistedd ar bolyn teligraff ar gyrion y ffordd efallai – ond yn anffodus nid felly y bu ('does na'm digon i'w gael gan rai 'nacoes?!)

Yr oedd wedi hen dywyllu arnaf yn cyrraedd yn ôl i'r gwesty, a Leri druan wedi bod yn poeni amdanaf ers meitin. (Fel arfer, roeddwn wedi colli pob synnwyr o amser a dyliwn fod wedi ffonio oriau'n ôl i ddweud fy mod yn iawn wrth gwrs ...yn ffodus mae wedi hen arfer a'm anghofusrwydd.)

Heb os, roedd trefnu taith yn werth pob ceiniog. Digon hawdd fyddai fod wedi cael arweinydd sal o bosib, ond drwy ryw ryfedd wyrth llwyddais i gael arweinydd gwerth chweil oedd yn gwmni hyddysg a chyfeillgar. Wn i ddim pryd, neu hyd yn oed os, y caf fy hun yn ôl yn Ne Portiwgal. Ond os, rhyw ddydd y byddaf yn ddigon ffodus i gael dychwelyd, yna byddaf yn rhoi galwad i Georg.

A dweud y gwir, mae arnaf awydd mynd ar un o'i deithiau '*pelagic*' y tro nesaf, i chwylio am adar drycin a pedrynnod yn haul bendigedig de Ewrop.

Ie, taith ar y môr ... yr haul yn tywynnu a'r tir yn dawnsio yn y tes ...adar cyffrous yn sgimio'r tonnau a'r oriau ddiflannu wrth i'r haul a'r llanw godi a gostwng ...hmmm ...ydynt, mae'r syniadau yn llifo yn barod.

Rhyw ddydd ...un dydd ...tybed?!

Allwn i ddim gobeithio am dywysydd gwell na Georg, a byddwn yn sicr yn argymell ei wasanaeth os byddwch yn ne Portiwgal. Ewch i www.birdwatching-algarve.com am fwy o wybodaeth.

Gweithgareddau Cymdeithas Ted Breeze Jones

Hydref – Rhagfyr 2012

Dydd Sadwrn, Hydref 20fed
Cynhadledd Flynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Cymdeithas Ted Breeze Jones
Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, 10.30y.b.
Bydd mwy o wybodaeth i ddod yn y post!
Cofiwch – bydd angen enwau o flaen llaw ar gyfer cinio

Dydd Sadwrn, Tachwedd 3dydd
Taith: Morfa Conwy a chyrrion Traeth Lafan, dan arweiniad Rhodri Dafydd
Cyfarfod 10.30y.b: Maes Parcio ger Llansanffraid Glan Conwy SH802766
Byddwn yn teithio yn ein ceir oddi yma.

Nos Fercher, Tachwedd 14eg
O Port i Portiwgal – Rhodri Dafydd a Twm Elias
Plas Tan y Bwlch, 7.30y.h.

Dydd Sadwrn, Tachwedd 24ain
Cynhadledd Llên Natur / Cofnod : Bywyd Gwyllt a'r Cymry
Plas Tan y Bwlch, cychwyn am 10.00y.b. –

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 1af
Gosod blychau nythu i wybedogion brithion
Cyfarfod ym Mhlas Tan y Bwlch, 10.30y.b.

Nos Fawrth, Rhagfyr 11fed
Sgwrs a mins peis
Plas Tan y Bwlch, 7.30y.h.

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 15fed
Taith: Adar y Cob a Borth y Gest, y daith Nadoligaidd draddodiadol dan arweiniad Twm Elias
Cyfarfod 10.30y.b: Ger Recordiau'r Cob, Porthmadog SH571384

SNOWDONIA NATIONAL PARK

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

Plas Tan y Bwlch

Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri

Pob llwyddiant i

Gymdeithas Ted Breeze Jones

ac i

LLYGAD BARCUD

Holwch am raglen o'r cyrsiau byd natur yr ydym yn eu cynnig,
neu am ein darpariaeth i grwpiau / cymdeithasau ymweld gyda'r nos am bryd bwyd,
a thro rownd y gerddi

Am ragor o wybodaeth a rhaglen lawn ffoniwch: 01766 772600